Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Adolygiad Polisi ar Gamddefnyddio Sylweddau: Y Newyddion Diweddaraf

Y Cefndir

1. Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wedi paratoi dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i adolygiad polisi y Pwyllgor ar gamddefnyddio sylweddau ac alcohol. Ceir y dadansoddiad yn Atodiad 1.

Y Mater

2. Tynnir sylw'r Aelodau yn benodol at y paragraff mewn lliw sy'n nodi sut y mae amcanion adolygiad polisi presennol y Pwyllgor yn gysylltiedig â gwaith arall ym maes camddefnyddio sylweddau.

Argymhelliad

3. Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad polisi mor effeithiol â phosibl a'i fod yn achosi'r effaith fwyaf, awgrymir:
4. Dylai staff Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau archwilio'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ynghyd â gwaith diweddar ym maes camddefnyddio sylweddau a llunio adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor a fydd yn pennu:

- Meysydd lle mae llawer iawn o waith adolygu eisoes wedi'i wneud o'u mewn
- Argymhellion blaenorol a wnaed yn lleol ac yn genedlaethol
- Gwaith datblygu polisi presennol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Meysydd polisi trawsbynciol y gallai llawer o waith adolygu a gwaith datblygu polisi fod wedi'i wneud yn eu cylch eisoes gan yrwyr polisi y tu allan i gylch gwaith cyfiawnder cymdeithasol, er enghraifft, iechyd neu addysg.
- Meysydd nad ydynt wedi'u hadolygu'n ddiweddar yng Nghymru a'r meysydd lle mae llai o waith datblygu polisi wedi'i wneud yn eu cylch

1. Yn ogystal â phennu meysydd posibl i'w harchwilio ymhellach, byddai'r adroddiad hefyd yn dangos pa waith sydd eisoes wedi'i wneud ar lefel bolisi a strategol, yn ogystal â chyfraniadau gwahanol sefydliadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Camau Gweithredu Posibl

2. Ar sail yr adroddiad hwn, y Pwyllgor i benderfynu a ydynt yn dymuno ymgymryd â:

- Craffu ar bolisïau presennol a rhoi argymhellion adolygiadau blaenorol ar waith; **neu**

- Ymchwilio i faes polisi nad oes cymaint o waith wedi'i wneud o'i mewn er mwyn cyfrannu at waith datblygu polisïau.

1. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno, bydd yr adroddiad ar y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd ac ar waith diweddar yn tynnu sylw at feysydd pwnc mwy addas i graffu arnynt (h.y. meysydd sydd wedi'u datblygu, sydd wedi'u hadolygu'n ddiweddar a/neu sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac sy'n amodol ar argymhellion blaenorol) a'r rhai sy'n fwy addas ar gyfer gwaith archwilio a datblygu (h.y. meysydd polisi diweddar neu feysydd polisi nad oes cymaint wedi'i wneud o'u mewn ac nad ydynt wedi'u hadolygu ers peth amser).
2. O blith y dewis eang o bynciau posibl a bennwyd gan yr ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ddewis **un neu ddau bwnc** i ganolbwyntio arnynt ac i'w hadolygu'n drylwyr.
3. Gwahoddir y Pwyllgor yn ogystal i ystyried sefydlu grp cyfeirio anffurfiol mewn perthynas â'r adolygiad polisi a all gynnig cyngor a chyfarwyddyd ynghylch sesiynau casglu tystiolaeth a meysydd penodol i ymchwilio iddynt. Awgrymir y dylai cyfansoddiad y grp adlewyrchu ystod yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghyd â'r pynciau a ddewiswyd i'w hadolygu. Gallai unrhyw garfanau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ymysg ymatebwyr yr ymgynghoriad gael eu cynnwys mewn grp cyfeirio o'r fath. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno, bydd rhestr o aelodau posibl yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 4.

Amserlen

4. Mae'r broses ymgynghori wedi dod i ben a rhagwelir y bydd y broses casglu tystiolaeth yn parhau hyd tymor y gwanwyn 2005.